

Lawrenny

Teithiau Byr



GRADDFA: 0 300 600 m

PELLTER/HYD: 2.8 milltir (4.5 km) 1 awr 30 munud

CLUDIANT CYHOEDDUS: Bloomfield Dial a Ride (seasonal 0800 783 1584)

CYMERIAD: Gweddol wastad, coetir a thraethlin, 1.7 km ar heol dawel gyda golygfeydd da

CHWILIWCH AM: Eglwys Eingl Normanaidd • adar gwyllt a rhydwyr • golygfeydd o ddyffordd y Daugleddau


! MWY O WYBODAETH: Llwybr ar hyd y blaendraith yn Garron Pill dim ond ar gael un awr bob ochr i'r llanw 7.2 metr o uchder

COD CEFN GWLAD!

- Mwynhewch y cefn gwlad a pharchu ei fywyd a'i waith
- Gochelwch rhag unrhyw risg o dân
- Gadewch glwydi ac eiddo fel rydych chi'n eu cael nhw
- Cadwch eich ci dan reolaeth dynn
- Cadwch at y llwybrau cyhoeddus wrth groesi tir amaethyddol
- Ewch â'ch sbwriel adref gyda chi

ALLWEDD

- • • • • Llwybr Cylch
- — — — — Llwybrau Caniataol Eraill
- P Maes Parcio
- Bus Safle Bws
- Tafarn
- X Caffi



Lawrenny

Teithiau Byr

Hyd: 1 awr 30 munud

Pellter: 2.8 milltir (4.5 km)

Cludiant cyhoeddus: Ffonio a Theithio Bloomfield (tymhorol 0800 783 1584).

Cyfeirnod map: SN015075

Chwiliwch am: Eglwys Eingl Normanaidd, adar gwyllt a rhydwr, golygfeydd o ddyfrffordd y Daugleddau.

Mae Lawrenny yn bentref bach tlws wrth ymyl cydlifiad afonydd Cairew a Cresswell a'r Daugleddau. Mae eglwys fach Eingl-Normanaidd Sant Caradog o'r ddeuddegfed ganrif yn edrych allan dros y pentref ac yn werth ei gweld. Ar un adeg, roedd Cei Lawrenny yn borthladd prysur ond mae'n ganolfan hwyllo enwog erbyn hyn.

Ond yr atyniad gwirioneddol yma yw'r coetir: Mae gan Lawrenny un o'r adrannau o goetir hynafol a arferai orchuddio system dyffryn boddedig yr Aberdaugleddau cyfan. Derw digoes sydd yma gan fwyaf, gyda dros 200 rhywogaeth o gen y coed, ac mae'r coed hefyd yn cynnwys y gelynnen, y gerdinen a'r gerddinen wyllt prin (perthynas agos i'r gerdinen) y gellir ei gweld yn hawdd yn yr Hydref oherwydd ei dail coch cyfoethog yn erbyn melyn a brown y dderw sy'n troi. Mae coed a phrysglwyni llaith goddefol yn llawn o'r fedwen gyffredin, yr onn a'r helygen lwyd, ac mae llawr y coetir yn llawn o redyn a mwsogl ac, yn y Gwanwyn, clychau'r gog.

Mae mwd cyfoethog glannau'r afon yn ddelfrydol i rhydwr ac mae'r crëyr, glas y dorlan a'r trochwr yno byth a hefyd.

Cymeriad: Gweddol wastad, coetir a thraethlin, 1.7 km ar heol dawel gyda golygfeydd da.

Mwy o wybodaeth: Llwybr ar hyd y blaendraeth yn Garron Pill dim ond ar gael un awr bob ochr i'r llanw 7.2 medr o uchder.

Gwlad y Chwedlau

Cliciwch ar yr eiconau isod am chwedl leol, neu ewch i www.arfordirpenfro.cymru/chwedlau

